# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion o gyfarfod anffurfiol, a'i gynhaliwyd Nos Iau, 12 Hydref, 2023

Yn Talbont, Rhydyclafdy am 7.00 yh

**Presenol:**

Hughie Williams (Cadeirydd)

Cynghorydd Catherine Hughes

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

**Cyfarfod anffurfiol oedd hwn, gyda dim ond tri yn mynychu er mwyn arwyddo sieciau, talu biliau a chwblhau gwaith papur ynghlwm a chyfrif y Banc. Nid oeddem wedi gallu cynnal ein cyfarfod yn ein lleoliad arferol heno oherwydd roedd Tu Hwnt i'r Afon wedi cau oherwydd amgylchiadau meddygol.**

Bu i ni ail leoli'r cyfarfod yng nghartref y Cynghorydd Catherine Hughes, a gweithredwyd ar y canlynol:-

1) Arwyddodd Hughie Williams (Cadeirydd) gytundeb gwaith Clerc Cyngor Cymuned Buan.

2) Trafodwyd prydles y cae chwarae, a chytunwyd i'r Clerc dalu'r anfoneb i Gyngor Gwynedd am rhent y tir swm o £1.

3) Llofnodwyd y ffurflen "customer change of address and contact detail authority" gan Hughie Williams a Catherine Hughes, er mwyn i NJ gael ei chyflwyno i Fanc yr HSBC i ddiweddaru'r cofnod.

4) Cytunwyd i NJOM greu rhestr o enwau llawn pob Cynghorydd, eu rhifau cyswllt gartref a'u rhifau ffonau symudol er mwyn cael rhestr mewn lle pe byddai argyfwng yn codi ar unrhyw adeg.

5) Cytunwyd i NJOM lunio rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf 09/11/23 gan ddiweddaru ac ychwanegu materion yn codi i raglen 12/10/23.

6) Bu i Hughie Williams gwblhau'r drafft o'r "Hysbysiad am gwblhau archwiliad ac am yr hawl i arolygu'r cofnod blynyddol cofnod blynyddoedd am y flwyddyn yn gorffen 31

Mawrth 2023”. Cytunwyd y byddai NJOM yn teipio’r drafft terfynol yn ddwy ieithiog a’i ‘hebostio i Hughie Williams erbyn 15/10/23, fel y gall ei lleoli yn yr hysbysfwrdd ym mhentref Rhydyclafdy.

7) **Materion Ariannol**

Cysoniad banc o ddyddiad:

04/08/2023 – 03/09/2023 - £7,901.94c

04/09/2023 – 03/10/2023 - £7,154.55c

Cafodd 10 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Catherine Hughes a’r Cynghorydd Rhys Jones.

| | | |
|---|---|---|
| Ad-dalu NJOM – Llyfr clawr caled ac amlenni | £3.75 | Siec Rhif – 200744 |
| Ad-dalu NJOM – Llyfr Stampiau | £6.00 | Siec Rhif - 200745 |
| Ad-dalu NJOM – Costau Teithio | £6.30 | Siec Rhif - 200746 |
| Nia Jane Owen-Midwood (Cyflog Mis 6) | £111.99 | Siec Rhif - 200747 |
| Cyllid a Thollau | £27.80 | Siec Rhif – 200748 |
| Tu Hwnt i’r Afon (i’w chyflwyno am ddefnydd o’r ystafell cyfarfod 09/11/23) | £20.00 | Siec Rhif – 200749 |
| Ad-dalu NJOM – Pryniant Gliniadur newydd | £478.99 | Siec Rhif – 200751 |
| Nia Jane Owen-Midwood (Cyflog Mis 7) | £111.79 | Siec Rhif - 200752 |
| Cyllid a Thollau | £28.00 | Siec Rhif – 200753 |
| Ad-dalu NJOM – Costau Teithio | £6.30 | Siec Rhif - 200754 |

8) **Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf –** Nos Iau, 9 Tachwedd 2023 am 7.30yh yn Tu Hwnt i’r Afon Rhydyclafdy.